**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/LG/3436/20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

22 Hydref 2020

Annwyl Mick

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu fy mod wedi gosod memorandwm cydsyniad offeryn statudol ("y memorandwm") sy'n ymwneud â Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2020 ("y Rheoliadau") a wnaed gan yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros yr Amgylchedd ar 15 Hydref. Mae'r Rheoliadau'n cynnwys diwygiadau i Ddeddf Iechyd Planhigion 1967 sy'n gymwys i Gymru.

Pwrpas y Rheoliadau yw cynnal bioddiogelwch a chefnogi masnach trwy sicrhau bod mesurau effeithiol ar gyfer diogelu iechyd planhigion yn parhau o fewn Prydain Fawr a rhwng Prydain Fawr a'r UE ar ddiwedd y Cyfnod Pontio ar 31 Rhagfyr 2020.

Rwyf wedi gosod y memorandwm yn unol â'r gofyn o dan Reol Sefydlog (RhS) 30A. Yn fy marn i, mae'r Rheoliadau'n gwneud darpariaeth berthnasol gan eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol sy'n gymwys i Gymru ac sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Cofion

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.